To: Heads of higher education institutions in Wales

Reference: W03/73HE
Date: 22 December 2003
Response By: 21 January 2004
Further Information: Jane Johns

REACHING HIGHER – REACHING WIDER
GUIDANCE FOR THE SUBMISSION OF PROPOSALS FOR YEAR TWO FUNDING

At its meeting on 5 December 2003, Council confirmed the following points in relation to the *Reaching Higher, Reaching Wider* initiative:

- The year two budget for the *Reaching Higher, Reaching Wider* initiative would be £1.95m. This amount reflects the fact that the Assembly has retained an element of year two funding to support the Aim Higher initiative.
- Year two funding for each of the Reach*ing Higher, Reaching Wider* partnerships would not be varied by *more or less* than 15% to ensure partnership stability and to enable growth where appropriate.
- Partnerships should be informed of a minimum funding allocation, by the end of December 2003, to ensure that short-term staff contracts, ending in March 2004 can be secured beyond April 2004.
- Funding for central co-ordination of *Reaching Higher, Reaching Wider* will remain the same as in year one ie £100k.

Most progress reports on year one activity of the *Reaching Higher Reaching Wider* initiative have now been received and we are grateful to those partnerships who were able to meet the submission deadline.

Further to the Council's letter of 5 November 2003, which indicated that proposals for year two of *Reaching Higher, Reaching Wider* funding should be submitted to the Council by mid-January 2004, I can now confirm that the date for submission of year two proposals will be Wednesday 21 January 2004.

The enclosed documentation, attached as annex A, is designed to provide guidance on the submission of proposals for year two funding of the *Reaching Higher, Reaching Wider* partnerships.

If you would like to discuss issues relating to Reaching Wider, please do not hesitate to contact Jane Johns, National Co-ordinator, Reaching Wider, via telephone: (01570) 424892 or email: Jane.Johns@lamp.ac.uk.

Yours sincerely

PHILIP GUMMETT

PROFESSOR PHILIP GUMMETT
DIRECTOR OF HIGHER EDUCATION

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
hefcw
Higher Education Funding Council for Wales

Annex A:

Reaching Higher Reaching Wider Initiative
Guidance Note for Reaching Wider Partnerships:

Year Two Funded Allocation

Guidance Note

This guidance note provides assistance to the Reaching Wider partnerships on the submission to the Council of collaborative proposals for widening access to higher education initiatives, for the period April 2004 to March 2005 (October 2004 to March 2005 for the South West Wales, Swansea Neath Port Talbot partnership).

Reaching Wider Funding Allocation

In the second year of the Reaching Wider initiative, a sum of £1.95m will be made available. The Council will retain sufficient funding to ensure effective central co-ordination of the Reaching Wider initiative (£100k) with the remaining allocation available for distribution to the Reaching Wider partnerships.

Partnerships will be notified of funding for 2004-05 in two stages. Firstly, we recognise that partnerships will have certain commitments in the early months of the next funded period and will need confirmation of funding to operate effectively. Therefore, partnerships will receive notification, by the end of December 2003, of a minimum funding allocation for 2004-05, which might be used to cover essential costs, such as staffing. This allocation will be based on staffing costs in 2003-04 with a small percentage increase.

To ensure the stability of partnerships as they continue to develop, we guarantee that partnership funding will not increase, nor decrease by more than 15% of the year one allocation, given reasonable performance. The notification of total funding will be made in March 2004, with the approval of the March 2004 Council, on receipt of the year two proposals from partnerships. Year two partnership proposals will be submitted to us by Wednesday 21 January 2004.

We wish partnerships to build on the good practice established in year one. Each bid will be considered on an individual basis, using the following criteria:

- Performance against targets or other verifiable outcomes in year one;
- Potential to meet the targets defined by the Welsh Assembly Government for *Reaching Higher Reaching Wider.*
- The quality of the programme of activities, and their rationale;
- The capacity of the partnership to deliver its proposed activities;
- The appropriateness of the planned use of funding to support the activities and operation of the partnership;
- The adequacy of the arrangements for distributing, controlling and monitoring the expenditure of funding within the partnership;
- The effectiveness of arrangements for monitoring and evaluating progress and for taking action to address any issues or problems which may arise;
- The viability of the partnership's structure.

Purpose of the Proposals

Proposals are invited from the Reaching Wider partnerships for the 2004-05 funding allocation. The proposals will indicate proposed, costed activity for the partnerships to develop their Reaching Wider strategies.

Scope of Activities

The Minister's letter to the Chairman of HEFCW: 7 July 2002 stated: 'I also wish to see the funding used to encourage *innovative and possibly large-scale projects* which would draw in a number of partners'. We regard this

focus as remaining relevant to year two Reaching Wider activity. To date there are few initiatives which are, or plan to be, Wales-wide or which involve collaboration between partnerships. Partnerships should:

- Undertake a critical audit of existing widening access and attainment raising activities, if they have not already done so. The critical audit should cover the full range of widening access activity by partnership members and form the basis of strategic planning in future bids;

- Indicate how this proposal relates to a longer-term partnership strategy to widen access and participation in higher education.

- Indicate attempts made to provide full geographical coverage of provision, especially in the boundary areas between partnerships.

- Demonstrate how activities contribute to the Welsh Assembly Government's targets for *Reaching Higher, Reaching Wider*. Community First provision can focus on all age-groups to promote intergenerational learning and upskilling of the workforce. We do appreciate that, for some partnerships, this might result in a refocusing of work undertaken in year two.

- Consider that workplace learning and a focus on students with disabilities were not strong features of any of the Reaching Wider partnerships in 2003-04. We would welcome innovative proposals to support these developments, should partnerships have the expertise to deliver in this field.

- Note activities which raise the profile of Reaching Wider partnerships within partnership institutions and within the partnership region.

- Ensure that each proposed activity includes a brief description, costings and measurable targets/outcomes.

Targets and Outcomes

- Proposals should explicitly address the extent to which activities will meet the Reaching Higher targets of the Welsh Assembly Government.

- A detailed programme of activities should besubmitted with proposed targets and/or other verifiable outcomes.

Proposed Funding

- The total funding requested by the Reaching Wider partnership in 2004-05 should be clearly stated.

- Each activity should be separately costed.

- Any partnership contribution or external funding from additional sources should be identified.

Partnership Management Procedures

- Arrangements for distributing, controlling and monitoring the expenditure of funding within the partnerships should be confirmed. Accountability for public funding must be a key priority for all partnerships.

- Arrangements for monitoring and evaluating progress against targets should be identified.

- Arrangements for external moderation of provision should be highlighted.

- An assessment of risk for all activities should be made and the steps taken to ameliorate risk should be identified.

2004-05 Time Frame for Reporting and Feedback

- The minimum funding allocation to Reaching Wider partnerships will be confirmed by the end of December 2003.
- Total funding will be transferred to partnerships by early April 2004.
- Progress reports to Council, relating to the April 2004 Reaching Wider allocation, will be in July 2004 and December 2004.

- A final confirmation of total activities, targets met and complete statements of expenditure, for the period April 2004 to March 2005, should be received by Council in July 2005 (October 2004 for the SW Wales partnership).
- Further guidance regarding reporting in the 2004-05 period will be sent to Reaching Wider partnerships in due course.

Contacts

Contact details of a member of the lead institution should be provided should any clarification or further discussion of the Reaching Wider proposal be required.

The National Co-ordinator, Reaching Wider, Jane Johns, can be contacted for more information by telephone (01570) 424892 or email: Jane.Johns@lamp.ac.uk.
Proposals should be sent to: The National Coordinator, HEFCW, Linden Court, The Orchards, Ilex Close, Llanishen, Cardiff, CF14 5DZ.

At: Penaethiaid Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru
Cyfeirnod: W03/73HE
Dyddiad: 22 Rhagfyr 2003
Ymateb erbyn: 21 January 2004
Gwybodaeth bellach: Jane Johns

YMGYRRAEDD YN UWCH – YMGYRRAEDD YN EHANGACH
ARWEINIAD AR GYFLWYNO CYNIGION AR GYFER CYLLID BLWYDDYN DAU

Yn ei gyfarfod ar 5 Rhagfyr 2003, cadarnhaodd y Cyngor y pwyntiau canlynol mewn perthynas â'r cynllun *Ymgyrraedd yn Uwch, Ymgyrraedd yn Ehangach*:

- Byddai'r gyllideb blwyddyn dau ar gyfer y cynllun *Ymgyrraedd yn Uwch, Ymgyrraedd yn Ehangach* yn £1.95m. Mae'r swm hwn yn adlewyrchu'r ffaith bod y Cynulliad wedi cadw elfen o gyllid blwyddyn dau ar gyfer y cynllun Anelu'n Uwch.
- Ni fyddai cynnydd na gostyngiad *o fwy na* 15% yn y cyllid blwyddyn dau ar gyfer unrhyw bartneriaeth *Ymgyrraedd yn Uwch, Ymgyrraedd yn Ehangach* er mwyn sicrhau sefydlogrwydd y partneriaethau ac i alluogi twf lle bo'n briodol.
- Byddai'r partneriaethau yn cael gwybod am eu dyraniad cyllid lleiaf erbyn diwedd mis Rhagfyr 2003, er mwyn sicrhau bod contractau tymor-byr sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2004 yn gallu cael eu hestyn y tu hwnt i fis Ebrill 2004.
- Bydd y cyllid ar gyfer cydlynu *Ymgyrraedd yn Uwch, Ymgyrraedd yn Ehangach* yn aros yr un fath ag ym mlwyddyn un, hynny yw £100k.

Erbyn hyn derbyniwyd y mwyafrif o adroddiadau ar gynnydd mewn perthynas â gweithgareddau blwyddyn un y cynllun *Ymgyrraedd yn Uwch, Ymgyrraedd yn Ehangach* ac rydym yn ddiolchgar i'r partneriaethau hynny a oedd yn gallu cyflwyno'r adroddiadau yn brydlon.

Ymhellach i lythyr y Cyngor dyddiedig 5 Tachwedd 2003, a nododd y dylai cynigion am gyllid ar gyfer blwyddyn dau o *Ymgyrraedd yn Uwch, Ymgyrraedd yn Ehangach* gael eu cyflwyno i'r Cyngor erbyn canol Ionawr 2004, gallaf bellach gadarnhau y bydd angen cyflwyno cynigion blwyddyn dau erbyn Dydd Mercher 21 Ionawr 2004.

Pwrpas y ddogfen amgaeëdig yn atodiad A yw cynnig arweiniad i bartneriaethau *Ymgyrraedd yn Uwch, Ymgyrraedd yn Ehangach* ar gyflwyno cynigion am gyllid blwyddyn dau.

Os hoffech drafod materion yn ymwneud ag Ymgyrraedd yn Ehangach, peidiwch â phetruso rhag cysylltu â Jane Johns, Cydlynydd Cenedlaethol, Ymgyrraedd yn Ehangach, drwy ffonio: (01570) 424892 neu e-bostio: Jane.Johns@lamp.ac.uk.

Yr eiddoch yn gywir

PROFESSOR PHILIP GUMMETT
DIRECTOR OF HIGHER EDUCATION

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
hefcw
Higher Education Funding Council for Wales

Atodiad A:

Y Cynllun Ymgyrraedd yn Uwch, Ymgyrraedd yn Ehangach
Arweiniad ar gyfer Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach

Dyraniad wedi'i Gyllido Blwyddyn Dau

Arweiniad

Pwrpas yr arweiniad hwn yw helpu partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach i gyflwyno cynigion cydweithiol i'r Cyngor ar gyfer cynlluniau i ehangu mynediad i addysg uwch, am y cyfnod o fis Ebrill 2004 hyd fis Mawrth 2005 (mis Hydref 2004 hyd fis Mawrth 2005 yn achos partneriaeth De-orllewin Cymru, Abertawe Castell-nedd Port Talbot).

Dyraniad Cyllid Ymgyrraedd yn Ehangach

Yn ail flwyddyn y cynllun Ymgyrraedd yn Ehangach bydd £1.95m ar gael. Bydd y Cyngor yn cadw digon o arian i sicrhau bod y cynllun Ymgyrraedd yn Ehangach yn cael ei gydlynu'n effeithiol (£100k) a chaiff y gweddill ei ddosbarthu ymhlith y partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach.

Rhoddir gwybod i'r partneriaethau am eu dyraniadau cyllid ar gyfer 2004-05 mewn dau gam. Yn gyntaf, cydnabyddwn y bydd gan y partneriaethau ymrwymiadau ym misoedd cynnar y cyfnod wedi'i gyllido nesaf ac y bydd angen iddynt gael cadarnhad o'r cyllid sydd ar gael er mwyn gallu gweithredu'n effeithiol. Felly, erbyn diwedd mis Rhagfyr 2003, bydd y partneriaethau'n cael eu hysbysu o'u dyraniad cyllid lleiaf ar gyfer 2004-05, y gellir ei ddefnyddio i dalu am gostau hanfodol, megis staffio. Seilir y dyraniad hwn ar gostau staffio 2003-04 gyda chynnydd canrannol bach.

I sicrhau sefydlogrwydd y partneriaethau wrth iddynt barhau i ddatblygu, rydym yn gwarantu, os ceir perfformiad rhesymol, na fydd cynnydd na gostyngiad o fwy na 15% yn y cyllid a dderbynnir gan unrhyw bartneriaeth o'i gymharu â'i dyraniad blwyddyn un. Bydd cyfanswm y dyraniadau yn cael ei hysbysu ym mis Mawrth 2004, ar ôl i gyfarfod mis Mawrth 2004 o'r Cyngor ei gymeradwyo ac ar ôl derbyn cynigion blwyddyn dau y partneriaethau. Bydd cynigion blwyddyn dau yn cael eu cyflwyno i ni erbyn Dydd Mercher 21 Ionawr 2004.

Rydym am i'r partneriaethau adeiladu ar yr arfer da a sefydlwyd ym mlwyddyn un. Caiff pob cynnig ei ystyried yn unigol, gan ddefnyddio'r meini prawf a ganlyn:

- Perfformiad yn erbyn targedau neu ganlyniadau gwiriadwy eraill ym mlwyddyn un;
- Y potensial ar gyfer cyrraedd y targedau a ddiffiniwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer *Ymgyrraedd yn Uwch, Ymgyrraedd yn Ehangach*;
- Safon y rhaglen o weithgareddau, a'u sail resymegol;
- Gallu'r bartneriaeth i roi ei gweithgareddau arfaethedig ar waith;
- Priodoldeb y defnydd y bwriedir ei wneud o'r cyllid i gefnogi'r gweithgareddau a gweithrediad y bartneriaeth;
- Digonolrwydd y trefniadau ar gyfer dosbarthu cyllid a rheoli a monitro gwariant o fewn y bartneriaeth;
- Effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer monitro ac asesu cynnydd ac ar gyfer cymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw faterion neu broblemau a all godi;
- Hyfywedd strwythur y bartneriaeth.

Pwrpas y Cynigion

Gwahoddir cynigion gan bartneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach ar gyfer cyllid 2004-05. Bydd y cynigion yn cynnwys gweithgareddau arfaethedig costiedig ar gyfer datblygu strategaethau Ymgyrraedd yn Ehangach y partneriaethau.

Cwmpas y Gweithgareddau

Yn llythyr y Gweinidog at Gadeirydd CCAUC dyddiedig 7 Gorffennaf 2002, dywedodd yr hoffai weld y cyllid yn cael ei ddefnyddio i hybu *prosiectau arloesol, ar raddfa fawr o bosibl*, a fyddai'n cael eu rhedeg gan nifer o bartneriaid. Ystyriwn fod y pwyslais hwn yn parhau'n berthnasol i weithgareddau Ymgyrraedd yn Ehangach ym mlwyddyn dau. Hyd yn hyn nid oes llawer o gynlluniau sydd, neu sy'n bwriadu bod, ar raddfa Gymru gyfan neu sy'n cynnwys cydweithio rhwng partneriaethau. Dylai'r partneriaethau:

- Ymgymryd ag archwiliad beirniadol o'u gweithgareddau ehangu mynediad a chodi cyrhaeddiad, os nad ydynt wedi gwneud hynny eisoes. Dylai'r archwiliad beirniadol gwmpasu'r ystod lawn o weithgaredd ehangu mynediad gan aelodau'r bartneriaeth a bod yn sylfaen ar gyfer cynllunio strategol yn y dyfodol.

- Dangos y berthynas rhwng eu cynnig a strategaeth dymor-hir y bartneriaeth i ehangu mynediad a chyfranogiad mewn addysg uwch.

- Nodi ymdrechion a wnaed i sicrhau darpariaeth ar hyd a lled ardal ddaearyddol y bartneriaeth, yn enwedig mewn ardaloedd ar y ffin rhwng partneriaethau.

- Dangos sut mae'r gweithgareddau yn cyfrannu at dargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer *Ymgyrraedd yn Uwch, Ymgyrraedd yn Ehangach*. Gall darpariaeth Rhoi Cymunedau'n Gyntaf ganolbwyntio ar bob gr p oedran i hybu dysgu rhwng y cenedlaethau ac uwchraddio sgiliau'r gweithlu. Sylweddolwn y gall hyn olygu bod rhai partneriaethau'n gorfod ailffocysu'r gwaith a wneir ganddynt ym mlwyddyn dau.

- Ystyried nad oedd dysgu yn y gweithle na sylw i fyfyrwyr ag anableddau yn nodweddion cryf o unrhyw bartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach yn 2003-04. Byddem yn croesawu cynigion arloesol i hybu datblygiadau o'r fath os oes gan y partneriaethau yr arbenigedd i gyflawni yn y meysydd hyn.

- Nodi gweithgareddau sy'n codi proffil partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach o fewn sefydliadau'r partneriaethau ac o fewn rhanbarth y bartneriaeth.

- Sicrhau bod pob gweithgaredd arfaethedig yn cynnwys disgrifiad byr, costiadau a thargedau/canlyniadau mesuradwy.

Targedau a Chanlyniadau

- Dylai'r cynigion roi sylw penodol i sut y bydd y gweithgareddau yn cwrdd â thargedau Ymgeisio'n Uwch Llywodraeth Cynulliad Cymru.

- Dylid cyflwyno rhaglen fanwl o weithgareddau gyda thargedau arfaethedig a/neu ganlyniadau gwiriadwy eraill.

Cyllid a Geisir

- Dylid nodi'n glir gyfanswm y cyllid a geisir gan y bartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach yn 2004-05.

- Dylid costio pob gweithgaredd ar wahân.

- Dylid nodi unrhyw gyfraniad gan y bartneriaeth neu gyllid allanol o ffynonellau ychwanegol.

Trefniadau ar gyfer Rheoli'r Bartneriaeth

- Dylid cadarnhau'r trefniadau ar gyfer dosbarthu cyllid a rheoli a monitro gwariant o fewn y bartneriaeth. Rhaid i atebolrwydd dros arian cyhoeddus fod yn flaenoriaeth allweddol i bob partneriaeth.

- Dylid nodi'r trefniadau ar gyfer monitro ac asesu cynnydd yn erbyn targedau.

- Dylid tynnu sylw at y trefniadau ar gyfer cymedroli'r ddarpariaeth yn allanol.

- Dylid gwneud asesiad risg o bob gweithgaredd a dylid nodi'r camau a gymerwyd i leihau risgiau.

Adroddiadau ac Adborth yn 2004-05

- Bydd y dyraniad cyllid lleiaf ar gyfer partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach yn cael ei gadarnhau erbyn diwedd Rhagfyr 2003.
- Bydd yr holl gyllid wedi cael ei drosglwyddo i'r partneriaethau erbyn dechrau mis Ebrill 2004.

- Bydd adroddiadau ar gynnydd, mewn perthynas â dyraniad Ymgyrraedd yn Ehangach Ebrill 2004, yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2004 a mis Rhagfyr 2004.
- Dylai'r Cyngor dderbyn cadarnhad terfynol o'r holl weithgareddau, targedau a gyrhaeddwyd a datganiadau cyflawn o wariant, am y cyfnod o fis Ebrill 2004 hyd fis Mawrth 2005, ym mis Gorffennaf 2005 (mis Hydref 2004 yn achos partneriaeth De-orllewin Cymru).
- Bydd arweiniad pellach ar gyflwyno adroddiadau yn ystod 2004-05 yn cael ei anfon i'r partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach maes o law.

Cysylltiadau

Dylid rhoi manylion aelod staff o'r sefydliad arweiniol y gellir cysylltu ag ef/hi os bydd angen unrhyw eglurhad neu drafodaeth bellach ar y cynnig Ymgyrraedd yn Ehangach.

Gellir cysylltu â'r Cydlynydd Cenedlaethol, Ymgyrraedd yn Ehangach, i gael rhagor o wybodaeth drwy ffonio Jane Johns ar (01570) 424892 neu e-bostio Jane.Johns@lamp.ac.uk.
Dylid anfon cynigion at: Y Cydlynydd Cenedlaethol, CCAUC, Cwrt Linden, Y Berllan, Clos Ilex, Llanisien, Caerdydd, CF14 5DZ.